# AROLWG MAP RHWYDWAITH TEITHIO LLESOL – DYWEDWCH EICH BARN

**Sut rydym yn defnyddio eich gwybodaeth bersonol**

Dim ond at ddibenion yr ymgynghoriad hwn y bydd y wybodaeth a ddarparwch yn cael ei defnyddio. I ddysgu mwy am sut mae eich gwybodaeth yn cael ei defnyddio, ewch i Hysbysiad Preifatrwydd Ymgynghoriad a Thudalennau Diogelu Data'r Cyngor:

Hysbysiad Preifatrwydd



**Diolch am eich diddordeb yn yr arolwg hwn.**

Teithio Llesol yw'r enw a roddir ar siwrneiau bob dydd, pellter byr y gall pobl eu gwneud naill ai ar droed neu ar feic fel i'r gwaith, yr ysgol neu i gyrraedd y siopau a chyfleusterau eraill. Gall hyn hefyd gynnwys defnyddwyr cadeiriau olwyn neu gymhorthion symudedd eraill. Nid yw'n cyfeirio at siwrneiau y gall pobl eu gwneud am resymau hamdden, fel cerdded neu feicio yng nghefn gwlad.

Hoffai'r Cyngor wella ansawdd a darpariaeth llwybrau cerdded, teithio ar olwynion a beicio ledled Bro Morgannwg, a bydd yr arolwg hwn yn ein helpu i wneud hynny.

## Mae'r arolwg ar gael o 22 Mehefin 2026 tan 14 Medi 2026.

I gymryd rhan, yn gyntaf cewch cipolwg ar y Map Rhwydwaith Teithio Llesol sy'n dangos y rhwydwaith presennol a chynlluniedig o lwybrau teithio llesol yr hoffai'r Cyngor ei weld yn cael ei ddatblygu ym Mro Morgannwg er mwyn hyrwyddo mwy o gerdded, olwynio a beicio.

Bydd angen astudiaeth bellach ar lawer o'r llwybrau newydd a gynlluniwyd i mewn i ddyluniad posibl y llwybrau newydd hyn, gan gynnwys y gost amcangyfrifedig a'r effaith beirianneg ac amgylcheddol.

Yn dilyn adborth o ymarferion ymgynghori blaenorol, rydym wedi ceisio sicrhau bod yr holl lwybrau hyn yn cysylltu i ffurfio rhwydwaith ac yn galluogi trigolion i gyrraedd cyfleusterau cyfagos o'u cymunedau, yn ddiogel ac yn gyfleus.

Rydym wedi llunio sawl cwestiwn am y rhwydwaith o lwybrau a ddangosir ar y map a byddem yn croesawu eich sylwadau trwy gwblhau'r arolwg.

Bydd swyddogion sy'n rhan o'r ymarfer hwn yn gweld pob ymateb a dderbynnir gan Fro Morgannwg yn llawn. Er na allwn ymateb yn unigol, byddwn yn ychwanegu'r holl faterion a godwyd at ein hadroddiad ymgynghori. Bydd hwn ar gael ar-lein neu ar gais yn y dyfodol, ar ôl i ni gau'r ymgynghoriad ac adolygu'r adborth.

Noder na fydd y Cyngor byth yn datgelu unrhyw wybodaeth bersonol a allai adnabod unigolyn.

Unwaith eto, diolch i chi am eich diddordeb yn yr arolwg teithio llesol hwn.

1. **Allwch chi roi manylion am yr ardal rydych chi'n gwneud sylwadau arni?**

☐ Y Barri

☐ Y Bont-Faen

☐ Dinas Powys

☐ Llanilltud Fawr

☐ Penarth a Llandochau

☐ Y Rhws

☐ Sain Tathan

☐ Sili a Cosmeston

☐ Ardal arall, enwch ____________________________________________

2. **Ydych chi'n cerdded, yn defnyddio olwynion* neu'n beicio yn yr ardal hon ar hyn o bryd?** (*Mae defnyddio olwynion yn golygu defnyddio cadair olwyn, sgwter symudedd, neu gymorth symudedd ag olwynion tebyg)

☐ Ydw – dw i'n cerdded/olwynio

☐ Ydw – dw i'n beicio

☐ Ydw - dw i'n gwneud y ddau

☐ Na - dydw i ddim yn gwneud unrhyw un

3. **A oes unrhyw un o'r llwybrau a ddangosir fel "llwybrau presennol" ar y map yn anodd, yn anniogel neu'n anaddas ar gyfer cerdded, olwynio neu beicio?**

☐ Oes

☐ Nac oes

☐ Dydw i ddim yn gwybod / Dydw i ddim yn defnyddio'r llwybrau hyn

Os oes, dywedwch wrthym pa lwybrau a pham nad ydynt yn addas.

*Wrth gyfeirio at lwybr, nodwch ef mor fanwl â phosibl gan ddefnyddio enwau trefi, enwau strydoedd, tirnodau, neu'r lleoedd y mae'n eu cysylltu.*

______________________________________________________________________

______________________________________________________________________

______________________________________________________________________

______________________________________________________________________

______________________________________________________________________

4. **A oes unrhyw lwybrau cerdded, olwynio neu beicio a ddylai fod ar y map ond nad ydynt?**

**Gallai hyn fod oherwydd nad oes llwybr yno o gwbl, neu oherwydd nad yw'r llwybr sydd yno yn ddigon da ar gyfer cerdded, olwynio na beicio ar hyn o bryd.**

☐ Oes

☐ Nac oes

☐ Dydw i ddim yn gwybod / Dydw i ddim yn defnyddio'r llwybrau hyn

Os oes, dywedwch wrthym pa lwybrau y dylid eu hychwanegu a pham.

*Wrth gyfeirio at lwybr, nodwch ef mor fanwl â phosibl gan ddefnyddio enwau trefi, enwau strydoedd, tirnodau, neu'r lleoedd y mae'n eu cysylltu.*

5. **A oes unrhyw lwybrau a ddangosir ar y map y dylid eu dileu?**
   **Gallai hyn fod oherwydd nad oes angen y llwybr mwyach, er enghraifft os yw'r llwybr yn arwain at ysgol sydd wedi symud.**

☐ Oes

☐ Nac oes

☐ Dydw i ddim yn gwybod / Dydw i ddim yn defnyddio'r llwybrau hyn

**Os oes, dywedwch wrthym pa lwybrau y dylid eu dileu a pham:**

6. **Pa lwybrau hoffech chi eu datblygu yn gyntaf a pham?**

*Wrth gyfeirio at lwybr, nodwch ef mor fanwl â phosibl gan ddefnyddio enwau trefi, enwau strydoedd, tirnodau, neu'r lleoedd y mae'n eu cysylltu.*

7. **Os oes gennych unrhyw sylwadau ynglŷn â'r map drafft, mae croeso i chi eu gadael isod:**

Dychwelwch drwy e-bost i activetravel@valeofglamorgan.gov.uk neu ewch â hi i'r Civic Offices, Holton Road, Y Barri.